Pecyn Pontio **Daearyddiaeth**

Croeso i'r pwnc a'r Adran

Croeso mawr i'r cwrs. Mae'n wych eich bod chi'n ystyried astudio Daearyddiaeth at Safon Uwch. Mae'r pecyn hwn yn cynnwys rhaglen o weithgareddau ac adnoddau i'ch paratoi chi ar gyfer dechrau Safon Uwch mewn Daearyddiaeth ym mis Medi.

Mae darganfod y byd rydyn ni'n byw ynddo yn llawer o hwyl. Yr wyf yn gobeithio y byddwch yn cytuno!

Oes gen ti ...

- ddiddordeb a chariad at yr amgylchedd?
- ddiddordeb mewn materion cyfoes?
- awydd i astudio pwnc sy'n berthnasol i dy fywyd a'th brofiadau?
- awydd canfod atebion dy hunan - nid dim ond cael dy addysgu?
- awydd eisiau ehangu dy astudiaethau UG neu Safon Uwch i ymdrin â'r 'gwyddorau' a'r 'dyniaethau'?
- awydd teithio a dod o hyd i wybodaeth am bobl, lleoedd, tirweddau a digwyddiadau newydd?

Os felly, bydd y cwrs hwn yn apelio atoch chi!
https://www.cbac.co.uk/cymwysterau/daearyddiaeth-ug-safon-uwch/#tab_overview

Mae'r cwrs yn eich annog chi i gymhwyso gwybodaeth, damcaniaeth a sgiliau daearyddol at y byd o'ch cwmpas. Bydd hyn yn ei dro yn eich galluogi i ddatblygu dealltwriaeth feirniadol o bobl, lleoedd ac amgylcheddau'r byd yn yr 21ain ganrif.

Blwyddyn 1 (UG):

- Tirweddau Naturiol (Tirweddau Arfordirol),
- Peryglon Tectonig,
- Lleoedd Newidiol,
- Ymchwiliad Gwaith Maes mewn Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol (Gwaith Maes yn Harlech, Fairbourne a Wrecsam gan aros yng Nglanllyn).

Sgiliau y byddwch yn eu datblygu dros y ddwy flynedd:

- Sgiliau daearyddol:
- Sgiliau meintiol i gasglu data drwy fesuriadau rhifiadol.
- Sgiliau ansoddol i gasglu data drwy dechnegau anrhifiadol
- Sgiliau Bagloriaeth Cymru:
- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

Gwaith Cychwynnol

- Ewch i'r wefan 'Digimap for Schools': https://digimapforschools.edina.ac.uk/login a defnyddiwch y manylion canlynol:
  username: **LL170RP**
  password: **wharms7912**

Treuliwch 5 munud yn ymgyfarwyddo gyda'r wefan gan symud i'ch ardal ble rydych yn byw. Yna mae angen i chi:

- Astudio'r arfordir rhwng Abergele a Prestatyn. Beth sydd i'w weld yma? Pa fath o arfordir sydd yma? (Traethau? Tywodlyd? Ogof, bwa a stac? Clogwyni?)
- Astudio'r arfordir De Sir Benfro rhwng Dinbych y Pysgod a Doc Penfro. Beth sydd i'w weld yma? Pa fath o arfordir sydd yma?
- Cymharwch y ddau arfordir. Beth sydd yn debyg ac yn wahanol?
- Gwyliwch y fideo canlynol gan chwilio yn Youtube 'BBC Volcano Live 1 of 4 An Introduction to our Active World' https://www.youtube.com/watch?v=ksSFfm19cvY
- Lluniwch canllaw adolygu un dudalen yn crynhoi y fideo gan ganolbwyntio ar y cwestiynau canlynol: Beth yw llosgfynydd? Pam fod llosgfynyddoedd yn bodoli? Beth yw effeithiau llosgfynydd?
- Mae angen i'ch canllaw adolygu gynnwys y canlynol: Geiriau allweddol a diffiniadau, diagramau wedi'u labelu'n glir, esboniadau byr o syniadau neu brosesau allweddol.
- Chwiliwch ar Google 'Cefndir Cynllun Canol Tref Y Rhyl' https://www.denbighshire.gov.uk/cy/preswyliwr/cymunedau-a-byw/rhyl/cefndir-cynllun-canol-tref-y-rhyl.aspx
- Sut mae Cyngor Sir Ddinbych yn ceisio adfywio Canol Tref Y Rhyl? Lluniwch PowerPoint yn amlinellu Cynllun Adfywio Canol Tref Y Rhyl.
- Mae angen i'ch cyflwyniad gynnwys y canlynol: Manylion am y cynlluniau adfywio, lluniau o'r ardaloedd sy'n cael eu adfywio, map o'r ardaloedd sy'n cael eu adfywio.

Gosod gwaith ymchwil

1. Tirweddau newidiol - Awgrymwch sut mae gweithgareddau dynol yn cael effaith gadarnhaol neu negyddol ar brosesau a thirffurfiau arfordirol.

2. Lleoedd newidiol - Eglurwch pam fod mwyafrif o gwmnïau aml gwladol y byd wedi ei leoli yn Silicon Valley, California.

3. Peryglon tectonig - Trafodwch y gwahaniaeth mae incwm isel ac uchel yn cael ar ba mor agored yw gwlad i beryglon tectonig.

Mwy ar y dudalen nesaf

Rhestr ddarllen sy'n cwmpasu'r pwnc

Lleoedd newidiol
https://www.placeness.com

https://pmt.physicsandmathstutor.com/download/Geography/A-level/Notes/AQA/Changing-Places/Case-Studies/Changing%20Places%20Guide%20to%20Place%20Studies.pdf

https://www.geography.org.uk/download/ga%20alevel%20cp%20geography%20matters%20bundle.pdf

Tirweddau newidiol
http://worldlywise.pbworks.com/w/page/15409212/Unit%201%20Section%20A%20-%20How%20physical%20processes%20have%20created%20coastal%20landforms

http://thebritishgeographer.weebly.com/coastal-case-studies.html

Peryglon tectonig
https://www.brainscape.com/packs/geography-case-studies-tectonic-hazards-10358101

https://www.hoddereducation.co.uk/media/Documents/Geography/Edexcel-A-level-Geography-Need-to-Know-sample-pages.pdf

https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zp46sg8/revision/4

https://www.bbc.co.uk/bitesize/guides/zw7s4j6/revision/5

Gwaith Ail-ymgyfarwyddo efo sgiliau/gwybodaeth TGAU

Mae'r cwrs yn adeiladu ar y wybodaeth, y ddealltwriaeth a'r sgiliau a sefydlwyd ar lefel TGAU ac mae'n anelu'n arbennig at ddatblygu dealltwriaeth fanylach o gysyniadau lle, gofod, graddfa ac amgylchedd, a'r gallu i'w cymhwyso. Bydd rhai ohonoch eisoes wedi caffael gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau o astudio daearyddiaeth ar gyfer TGAU.

Yr agweddau o'r gwaith TGAU sydd yn bwysig i chi ymweld â nhw eto yw Peryglon Arfordirol a'u Rheolaeth (Thema 4) a Chysylltiadau Gwledig – Trefol (Thema 2).

Mi fyddai'n ddefnyddiol iawn i chi wneud nodiadau adolygu ar gyfer yr agweddau hyn.